

## **Defnyddio'r Mynegai Cleifion ar gyfer Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych**

### **Beth yw gorchmynion derbyn?**

Roedd gorchmynion derbyn cleifion yn darparu tystiolaeth bod y claf wedi'i 'ardystio'n wallgof' ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth bersonol, yn ogystal â manylion am symptomau'r claf cyn ei dderbyn. Y gorchmyn derbyn yw'r cofnod cyntaf o gyfnod y claf yn yr ysbyty a gellir ei ddefnyddio ochr yn ochr â chofnodion eraill fel nodiadau achos i ddarganfod mwy am ofal y claf.

### **Y Prosiect**

Nod y prosiect hwn oedd creu mynegai cleifion yn nhrefn yr wyddor ar gyfer Ysbyty Gogledd Cymru (Seilam Dinbych) i alluogi ymchwilwyr i chwilio am gleifion ar-lein. Mae gorchmynion derbyn wedi eu bwndelu mewn trefn gronolegol ac nid ydym erioed wedi gallu chwilio'r casgliad yn ôl enw o'r blaen. Mae'r gronfa ddata hon yn awr yn ein galluogi i chwilio cofnodion sydd wedi goroesi ar gyfer cleifion a dderbyniwyd rhwng 1848 a 1914 yn ôl enw a chanfod yn hawdd os oedd claf wedi'i dderbyn i'r ysbyty droeon.

Mae'r mynegai cleifion ar gyfer Ysbyty Gogledd Cymru wedi ei gwblhau, diolch i waith gwirfoddolwyr ymroddedig sydd wedi rhestru'r gorchmynion derbyn cleifion rhwng 1848 a 1914. Mae'r prosiect hwn wedi cymryd dwy flynedd i'w gwblhau (2013-2014) ac mae wedi cynnwys dros 15 o wirfoddolwyr yn edrych ar dros 8,000 o gofnodion i greu cronfa ddata o wybodaeth sylfaenol sy'n cynnwys enw'r claf, dyddiad derbyn, oedran wrth gael eu derbyn, dyddiad rhyddhau neu farwolaeth, galwedigaeth ac undeb (h.y. yr undeb a oedd yn talu am eu triniaeth) neu gyfeiriad yn achos cleifion preifat. Mae'r gorchmyn derbyn yn cynnwys llawer mwy o wybodaeth am y claf nad oedd o fewn cwmpas y prosiect hwn yn cynnwys y sylwadau a wnaed gan ymarferydd meddygol ac yn aml arsylwadau gan aelod o'r teulu.

Oherwydd rheolau'r GIG, mae cofnodion ysbyty ar gau i'r cyhoedd eu harchwilio am 100 mlynedd. Rydym yn bwriadu ychwanegu at y gronfa ddata yn flynyddol wrth i gofnodion ddod ar gael.

Cofnodwyd y wybodaeth mewn dau gam. Yn gyntaf, bu grŵp o wirfoddolwyr yn gweithio o'r cofnodion papur gwreiddiol gan nodi manylion mewn llawysgrifen i mewn i dempled printiedig. Yn ail, bu gwirfoddolwyr unigol yn gweithio o'r templed a gwblhawyd i mewn i daenlen.

### **Hepgoriadau a bylchau yn y cofnodion**

Rydym yn ymwybodol bod rhai gorchmynion derbyn ar goll cyn i'r prosiect ddechrau a gallaf gadarnhau bod 228 o 8,373 o gofnodion ar goll o'r gyfres hyd at fis Rhagfyr 1914 (2.72%). Nid yw'n glir pam na chafodd y cofnodion hyn eu trosglwyddo i'r archifau; gall rhai yn syml, fod wedi eu colli neu efallai fod y gwaith papur wedi ei drosglwyddo gyda'r claf i seilamau eraill ar draws y wlad.

Efallai nad yw rhywfaint o wybodaeth ar gael yn y daenlen am nifer o resymau-

- Efallai nad yw'r gorchmyn derbyn gwreiddiol yn cynnwys y wybodaeth am nad oedd yn hysbys ar yr adeg y cafodd ei gwblhau. Er enghraifft, efallai nad oedd y claf ei hun yn gwybod ei union oedran, neu efallai fod sillafiad enw anarferol wedi bod yn aneglur.

- Efallai fod y gorchymyn derbyn gwreiddiol yn annarllenadwy. Er enghraifft, mewn rhai achosion, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng rhif 3 a 5.

Er bod gofal wedi ei gymryd i osgoi unrhyw gamgymeriadau, mae'n anochel y bydd rhai camgymeriadau o bosibl fel gwallau teipio neu drawsgrifio. Byddem yn argymhell yn gryf eich bod yn edrych ar y cofnod gwreiddiol naill ai drwy ofyn am gopi neu ymweld â'n hystafell chwilio i gadarnhau bod yr holl fanylion yn gywir.

### **Beth i'w wneud os byddwch yn dod o hyd i gofnod o ddiddordeb**

Os byddwch yn dod o hyd i gofnod a hoffech weld y gorchymyn derbyn gwreiddiol, rydym yn awgrymu eich bod yn [cysylltu â ni](#) i drefnu i ymweld â'r swyddfa yn Rhuthun.

Os nad ydych yn gallu ymweld â'r swyddfa yn bersonol, gallwn roi copi o'r gorchymyn derbyn i chi a gwirio'r cofnodion i weld a oes unrhyw nodiadau achos sydd wedi goroesi ar gyfer y claf.

### **Faint mae'n ei gostio i archebu copi o orchymyn derbyn?**

Mae ffi safonol o £10.00 am gopi o orchymyn derbyn a gellir eu darparu drwy'r post neu e-bost. Mae'r ffi hon yn cynnwys chwilio am unrhyw nodiadau achos sydd wedi goroesi. Gellir darparu copïau o'r nodiadau achos am gost ychwanegol.

Bydd angen i chi ddarllen, cwblhau a dychwelyd ein ffurflen archeb copïo i wneud eich archeb. Gellir talu gyda sic (yn daladwy i Gyngor Sir Ddinbych) neu gyda cherdyn dros y ffôn.